

# Gair bach Bethlehem 22



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 22 - Tachwedd 15 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

## AR AGOR UNWAITH ETO

Pan gyfarfu'r Diaconiaid mewn cyfarfod ar Zoom nos Lun diwethaf, Tachwedd 9, y prif faterion dan sylw oedd a ddylid ail-agor wedi'r cyfnod 'Clo' diweddaraf ac i roi trefn ar y gwasanaethau o hyn hyd at ganol Ionawr 2021.

Cadarnhawyd yn unfrydol y dylid cynnal oedfaon ym Methlehem o Sul Tachwedd 15, 2020 ymlaen, er y dylid nodi y bydd ambell oedfa, o ddewis y trefnwyr, yn parhau i gael eu darparu yn rhithiol.

Bydd yr asesiad risg blaenorol yn cael ei adolygu cyn ail-agor, a bydd yr un drefn o reoli'r niferoedd a all fod yn bresennol ar unrhyw adeg yn parhau. **Bydd gwisgo mwgwd o fewn yr adeilad hefyd yn rheidrwydd.**

Dyma felly yr hyn y gallwch ddisgwyl dros yr wythnosau nesaf yma (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):-

**15 Tachwedd 2020** – Oedfa dan ofal y **Parchedig Gethin Rhys**

**22 Tachwedd** – Oedfa dan ofal **Arwel Ellis Owen**

**29 Tachwedd** – Oedfa dan ofal **Delwyn Sion**

**6 Rhagfyr** – Oedfa Gymun dan ofal **Delwyn Sion**

**13 Rhagfyr** – Oedfa **9 Lith a Charol** (am 5:00 p.m.)

**20 Rhagfyr** – Cyflwyniad **Nadolig yr Ysgol Sul** (Oedfa Rithiol)

**25 Rhagfyr** – Oedfa **Bore 'r Nadolig** (Oedfa Rithiol)

**27 Rhagfyr** – NODER: Nid yw'n fwriad cynnal oedfa ar y Sul hwn

**3 Ionawr 2021** – Oedfa Gymun dan ofal **Delwyn Sion**

**10 Ionawr** – Oedfa **Blygain**

O ran trafodaethau eraill:-

- cadarnhaodd y Trysorydd ei fod, mewn ymgynghoriad a chynrychiolwyr ein dewis elusen leol, **Canolfan y Drindod, Caerdydd**, wedi trosglwyddo swm o **£2600** (swm tebyg i'r hyn oedd eisoes wedi ei gasglu gennym) i'w cronfa, i'w galluogi i barhau a'u gwaith dros yr wythnosau nesaf yma.
- mynegwyd dyhead i gryfhau'r berthynas rhwng y Capel ag Ysgol Gwaelod-y-garth, er sicrhau gwell dealltwriaeth o'r anghenion a'r adnoddau y gellir eu rhannu – byddid yn agor trafodaeth gyda'r Pennaeth er hyrwyddo hyn.
- cytunwyd i ail-fabwysiadu un o hen draddodiadau'r capel o gyflwyno anrheg Nadolig i'r aelodau hynaf ac eraill sydd yn gaeth i'w cartrefi.
- nodwyd yr awgrym y dylid ystyried cynnal oedfa benodol yn 2021 yn canolbwyntio ar yr hinsawdd, er sefydlu Sul yr Hinsawdd yn rhan o'n calendr blynyddol.

Gwerthfawrogi haelioni pawb o'r aelodau a'r cyfeillion sydd wedi bod mor barod eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod y cyfnod clo. **Rhowch wybod i ni am unrhyw un sydd mewn angen.**



Bethlehem wedi ei ddiheintio a'i osod yn barod ar gyfer oedfa Tachwedd 15



Y Cwrdd Diaconiaid ar 'Zoom'

**Beth am eich cyfraniad Nadoligaidd chi i'n rhifyn nesaf?**

**Atgofion o Nadoligau a fu? / Troeon trwstan? / Arferion ardal?**

**Rhannwch nhw gyda'ch cyd-aelodau**

Anfonwch air at Ifan Roberts: [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com) / 077 61 82 69 77 **Dedlein: Rhagfyr 9<sup>fed</sup>**

# Dyddiadur y mis aeth heibio

## Dydd Sul 18 Hydref

Tro Gwenan oedd hi bore 'ma i arwain ac yr oedd hi'n wych. Adroddodd stori, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, am y Bregeth ar y Mynydd. Roedd yn ddi-ddorol gweld map o Balesteina yng nghyfnod yr Iesu oedd yn dangos ardal Galilea, yn y gogledd, lle wnaeth yr Iesu bregethu'n fwyaf. Soniodd am Weddi'r Arglwydd, Y Gwynfydau a'r Rheol Aur: "Pa beth bynnag y dymunwch i ddynion ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy; hyn yw'r Gyfraith a'r proffwydi".



Dywedodd bod hwn yn neges bwysig ac yn sail Cristnogaeth mewn gwirionedd.



Ac yna roedd hi'n amser am y cwis ac fe atebodd y plant yn wych gyda sawl un yn cael marciau llawn.



Roedd hi'n hyfryd croesawu Delwyn atom bore 'ma ac fe ddwedodd air bach o gefnogaeth i'r criw ar y diwedd. Diolch i Aaron, Gwenni, Awen, Sara, Pegi a Clara am eu cwmni hyfryd.

**6pm Dydd Gwener 23 Hydref:** Cyfnod byr atal y Coronafeirws yn dechre.

**Dydd Sul 25 Hydref:** Hanner tymor

**Dydd Mawrth 27 a Gwener 30 Hydref:** Cyfarfod criw uwchradd Bethlehem sef Megan, Garmon, Ifan, Ffion, Mabli a Nel, dros Zoom i drafod eu cyfraniad i'r cyflwyniad Nadolig eleni.

**Dydd Sul 1 Tachwedd:** Stori Iesu am y ddau dŷ oedd sail gwrs bore 'ma ac yr oedd ymateb Eli, Enfys, Luned, Aaron a Gwenni yn hyfryd fel arfer.

**Dydd Sul 8 Tachwedd:** Paul a Rachel oedd yng ngofal yr Ysgol Sul y bore 'ma a daeth 18 o blant i ymuno â ni ar y sgrin fach. Gan ei bod hi'n Sul y Cofio, cyflwynodd Paul hanes Betsi Cadwaladr yn y Crimea i'r plant ac yna cafwyd cwis gan Rachel. Roedd ymateb - a gwybodaeth - y plant yn ardderchog.



Mae yna bob amser groeso i unrhyw un ymuno ar fore Sul am 10.30. Cliciwch ar y linc isod:

<https://us02web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUNdD3M3ZCUT09> neu

ewch i mewn i Zoom gan ddefnyddio'r rhif adnabod:

**714 6634 3537**

Cyfrinair: **Bethlehem**

Ges i fy neffro gan drydar y bore o'r blaen, na, nid y ffôn, ond trydar yr adar yn cyhoeddi gwawrio diwrnod newydd, a rhwng cwsg ag effro dyma ddechrau meddwl am bwt bach i'r Gair Bach, ac wrth i'r niwl glirio o'r llygaid, fe ddaeth i fy mhen, Belshasar!\*

Ddwy fil o flynyddoedd a mwy yn ôl fe adroddwyd hanes am y brenin mawr Belshasar. (Yn Llyfr Daniel i chi sy' moyn gwybod.) Belshasar, yr arweinydd ffoenuchel a thrahaus, yr arweinydd o'dd yn meddwl mai fe oedd y gwr mwya' pwerus yn y byd, "O frenin, bydd fyw byth!" oedd datganiad ei frenhines. Ond yn ystod gwledd i ddathlu ei fawredd, fe welwyd llaw yn ysgrifennu geiriau rhyfedd ar y mur. "Mene. Mene. Tecel. Wparsin." Sef, "Rhifwyd blynyddoedd dy deyrnasiad a daethpwyd â hwy i ben. Pwyswyd di yn y glorian, a'th gael yn brin....."

lyffach! Ga'th e sioc! O'dd e'n credu'r peth, fe, Belshasar, wedi'i gael yn brin !!! Ond, y noson honno, fe ddaeth teyrnasiad Belshasar i ben.

Nawr, ai fi yw e, neu ydy'r hanes yna'n swno'n rhyfeddol o gyfarwydd a chyfoes? 'Na fe, fel wedodd yr hen Samuel "O! fel y cwmpodd y cedyrn !"

Dwi'n dweud dim mwy .....  
"tweet! tweet!"

Mewn llawenydd,

*Delwyn.*



enw

yna,

ffili



[\*Dyma sillafiad Beibl.Net, sef 'Belshasar', tra bod Y Beibl Cymraeg Newydd yn ei roi fel 'Belsassar'.]

## Newyddion am gyd-aelodau

### Croeso i:

**Nico Morgan**, mab bach newydd i Anna ac Owain yn Nhreganna a brawd bach i Deio. Ganwyd Nico ar Hydref 21<sup>ain</sup>. Wyr newydd i Joy ac Eifion, Pentyrch.

### Penblwydd hapus iawn i:

**Rhiain Phillips, Radur**, oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 ar Dachwedd 12<sup>fed</sup>. Mae Rhian yn un o gyfranwyr y rhifyn hwn

### Anfonwn ein cofion at:

**Delyth Evans ,Y Barri** , sydd wedi derbyn triniaeth ar ei llygad yn ddiweddar.

### Rydyn ni'n cydymdeimlo â theuluoedd yr aelodau canlynol:

**Heulwen Jones, Y Eglwys Newydd** – wedi colli ei ewythr

**Bethan Tame, Gwaelod-y-garth** - wedi colli ei modryb

**Eirlys Lamb, Llantrisant** – wedi colli ei brawd yng nghyfraith.

**Dedlein y rhifyn nesaf: Rhagfyr 9<sup>fed</sup>**

Deunydd at Ifan Roberts: [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com) / 077 61 82 69 77

Yn ystod wythnosau hir y clo melltgedig yma, mae'n siŵr bod galw dwfn wedi bod am ein hangen am 'feddwl tawel'. Fu erioed un gen i. Arferai Mam ddweud mai 'M' am 'mynd' oedd yr 'M' yn fy enw. (Rhiain Margaret sydd ar y dystysgrif geni) Yn feddyliol a chorfforol rhyw greadur aflonydd fûm i!

Wrth sgwrsio efo Marian ar ôl yr oedfa ddiweddar ym 'Methlehem' daeth i'm meddwl atgof o fod yn Burma, flynyddoedd yn ôl.

Cefais gwmni gwraig cyd-weithiwr i Glyn o'r enw *Daw Kim Int*. Drwy aml i sgwrs daethom i'r casgliad nad oedd ein gwahanol gefndir na'n crefydd yn ein gwahanu. Ein bod ar ddau lwybr cyfochrog yn anelu at yr un lle. Cyflwynodd lyfr imi sef "*Search for the Quiet Mind*" gan awdur o'r enw John Coleman.

Daeth galwad ffôn ddi-rybudd gan *Daw Kim Int* un bore gan ddweud y byddai'n fy nôl mewn hanner awr i fynd a mi i'r 'Ganolfan Myfyrion Ryngwladol' enwog sydd yn Rangoon. Ac felly fu.

Datblygodd y bore digon cyffredin yn ddigwyddiad fyth-gyrhaeddol! Yno, yn y ganolfan unigryw, yr oedd wedi trefnu cyfarfod imi. Daeth un o'r mynaich i'n croesawu a dyma fy ffrind yn gafael yn fy llaw i'm cyflwyno gan ddweud "*She asks so many questions, I bring her here for you to answer!*" A dyma eistedd a chynnal sgwrsio nobl!

Daeth enw John Coleman, a'i lyfr, i mewn i'r sgwrs yn fuan a cefais ei hanes. Ysbïwr dros lywodraeth America oedd ei swyddogaeth nes i rywun ei 'ddarganfod' yn Singapore! Doedd e'n dda i ddim i'w gyflogwyr wedyn wrth gwrs! Yn ddiwerth fel ysbïwr, cawn ei hanes yn ei lyfr yn olrhain ei ymgais i ddod o hyd i'r 'meddwl tawel'.


Fedrai'r mynach ddim cuddio ei lawenydd wrth ddweud ei fod o, Coleman, yno, yn y Ganolfan, lle y daeth ar ei daith i geisio'r elfennau fyddai'n ei fodloni. Yma, wedi ymneilltuo am bythefnos, heb gysylltu â neb, a chryfhau ei feddwl. Mae pob 'Bwddydd' i fod i wneud hyn yn flynyddol. Mae'n debyg fod Coleman wedi methu cael gafael yn yr ysbrydol naill ai yn Nghatholigiaeth ei dad nac yng Nghalfiniaeth ei fam. Roedd yn gwrthryfela yn erbyn caethiwed cyfundrefnol y ddwy ffordd o addoli. Roedd yn methu gweld cyfle i'r unigolyn ddatblygu drosto'i hun. Yn y Ganolfan Ryngwladol yma y medrodd ddod o hyd i'r gwirionedd drosto'i hun, yn nysgeidiaeth Bwda. Deuai yno pob blwyddyn i ail ymnerthu ei hun. Doedd dysgeidiaeth Bwda ddim yn ei atal, gartre yn Reading, i fynd efo'i wraig a'i blant i ddathliadau Catholig a Phrotestannaidd. Ymhen diwrnod neu ddau cefais alwad ffôn arall. A allai Glyn a minnau fynd yno i gael cinio gyda Coleman! Roedd wedi dod i ben â'i fyfyrddod a chlywodd am hanes fy ymweliad. "Cymraes yn holi dros rhyw bapur newydd?" (Y Faner!)

Cymro oedd o, o dras. Ei daid a'i nain wedi ymfudo i Bensusylfenia. Ei fam wedi'i magu yno a'i fagu yntau. Roedd wedi methu cael gafael ar yr ysbrydol naill ai ym Mhabyddiaeth ei dad na Chalfiniaeth ei fam. Bu'n gwrthryfela yn erbyn caethiwed cyfundrefnol nad oedd lle ynddynt i'r unigolyn ddatblygu drosto ei hun. Yma, yn y Ganolfan, daeth o hyd i'r 'Gwirionedd' drosto'i hun.

Byddai'n braf meddwl fod adnodau cyffelyb yn ein gwaddol ninnau. Mae'r "*tangnefedd sydd uwchlaw pob deall*" yn cyfateb yn union i'r wefr a brofodd John Coleman yn ei ymchwil. Trueni fod cyfundrefnau a gwendidau dynol yn cuddio'r neges.



(isod) Rhiain a'r Athro Glyn O'Phillips gyda'r Dr Daw Kim Int a'i briod. Ar ôl gweld gwaith y doctor yr aeth Glyn ei hun i arbrofi'n llwyddiannus gyda'r driniaeth yn ymwneud a'r 'meinwe'.



'Does gen i ddim cof am galendr Adfent yn ein tŷ ni pan oeddwn yn blentyn – tybed pryd yn union y daeth un am y tro cyntaf i'ch cartrefi chwi?

O edrych ar y wefan mae'n amlwg ei fod yn hynod o ffasiynol erbyn hyn, ac, yn fwy na hynny, yn fasnachol bwysig hefyd gyda'r cwmnïau mawr a bach, yn eu gwahanol ffyrdd, yn cynnig pob math o bethau tu ôl i chwareli'r ffenestri rheini sydd i'w hagor yn ddyddiol hyd at noswyl Nadolig.

Yn ôl Wicipidia:- *“Calendr arbennig sy'n cael ei ddefnyddio i gyfri'r dyddiau tan y Nadolig yw'r calendr Adfent. Gan fod dyddiad Sul cyntaf yr Adfent yn amrywio rhwng Tachwedd 27 a Rhagfyr 3, mae'r rhan fwyaf o galendrau Adfent yn dechrau ar Rhagfyr 1, ond mae'r rhai sydd ar gyfer blynyddoedd penodol weithiau yn cynnwys dyddiau olaf Tachwedd fel rhan o'r tymor litwrgaidd.*

*Cafodd y calendr Adfent ei ddefnyddio gyntaf gan Lutheraid Almaenig yn y 19g a'r 20g.*

*Mae galendrau Adfent traddodiadol yn cyflwyno stori'r Geni, ond mae'r ffurf bellach wedi'i datblygu fel bod rhai i'w cael ar nifer o wahanol themâu (e.e. cyfresi teledu plant). Mae rhai sydd â lluniau yn unig y tu ôl i'r drysau, ac eraill yn cynnwys danteithion neu roddion bychain; rhai i'w defnyddio unwaith ac eraill i'w hailddefnyddio o flwyddyn i flwyddyn.”*

Tymor yr Adfent eleni fydd rhwng y 29ain o Dachwedd a'r 24ain o Ragfyr.

Mae taro golwg ar y gwefannau cymdeithasol yn un o'n harferion diymwâd erbyn hyn, ac ydw, 'rydwi mor euog ag unrhyw un o gymryd golwg slei arno sawl gwaith y dydd.

Ia, er mwyn gweld y newyddion diweddaraf fel mae'n torri; ia, i gael ambell i sgôr bêl-droed; ac ia hefyd pan mae dim (neu'r wraig) yn galw!

A dyna gic a gefais y dydd o'r blaen o weld yr awgrym yma arno yng nghyd-destun y calendr Adfent, neu'n wir y calendr Adfent amgen!

Cynnig ffordd wahanol o edrych arno oedd yr her, ac yn hytrach nag agor ffenest a “**derbyn**” anrheg, yr awgrym oedd y dylem “**roi**” anrheg yn ddyddiol i rywun neu rywrai.

A gan i mi sôn yn y rhifyn diwethaf o “Gair bach Bethlehem” am roddion amgen yn enw Cymorth

Cristnogol, dyma gyfeirio'r awgrym y tro yma tuag at ein helusen leol, Canolfan y Drindod, Caerdydd, neu'r Banc Bwyd.

Yn syml, yn ôl yr enghraifft a gyflwynwyd ar y wefan, gallem ddarparu cymorth gwerth chweil yn ddyddiol i deuluoedd mewn angen fel a ganlyn:-

1. Bocs o fwyd brecwast
2. Potel o ddeunydd golchi llestri
3. Tun o Gawl
4. Bar o Sebon
5. Paced o Basta
6. Cig mewn tun
7. Paced o Glytiau Babi
8. Brwsh dannedd
9. Paced o sachau te
10. Jar o saws pasta
11. Tun o Domatos
12. Tun o Lysiau
13. Paced o ffacbys (lentils)
14. Powdwr Golchi Dillad
15. Tun o ffrwythau
16. Paced o fisgedi
17. Llefrith UHT
18. Jar o Goffi
19. Tiwb o Bast Dannedd
20. Potel o siampw
21. Bocs o ddewis felysion
22. Paced o reis
23. Tun o Ffa pob
24. Cacen neu bwddin Nadolig (di-alcohol)



Ac yn hytrach nag aros tan gyfnod yr Adfent cyn dechrau, oherwydd byddai hynny yn golygu na fyddai'n bosibl trosglwyddo'r deunydd cyn y Nadolig, dylid mynd ati rhag blaen i ddechrau arni fel y gellid darparu'r cyfan o leiaf wythnos neu fwy cyn y gwyliau.

**Beth amdani bobl Bethlehem naill a'i fesul teulu neu fesul eitem?**

O wneud byddai croeso brwd i'r calendr Adfent yn ein cartrefi ni i gyd o hyn allan yn byddai!

## Ein hoedfaon ar-lein



### Sul y Cymun

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd i'r oedfaon gynhaliwyd ar-lein dros y cyfnod clo sydyn ddaeth i ben ar Dachwedd 9fed. Uchod mae'r rhai ymunodd â Delwyn cyn iddo weinyddu'r Cymun ar **Dachwedd 1<sup>af</sup>** - ynghyd â'r côr oedd yn cloi'r oedfa. Mae'r oedfa honnp yn dal i fod ar gael ar YouTube: [https://youtu.be/v8m00Dnh\\_Dg](https://youtu.be/v8m00Dnh_Dg)


### Sul yr Adferiad

Dydd Sul **Hydref 25<sup>ain</sup>**, bu'n rhaid i Wynford Ellis Owen newid ei drefniadau ar gyfer 9fed Sul yr Adferiad. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal oedfa ym Methlehem, ond daeth y cyfyngiadau newydd i rym ar fyr-rybudd ac fe'i cynhaliwyd ar-lein. Isod, fe welwch bawb fu'n rhan o'r addoliad hwnnw – ac mae'r cyfan yn parhau i fod ar-lein ar YouTube: <https://youtu.be/1ZI1yyBJEko>



### Sul y Cofio

Y Parchedig Ddr R Alun Evans oedd yn arwain yr oedfa hon ar-lein ar **Dachwedd 8<sup>fed</sup>**– gyda chyfraniadau gan Joy Glyn a Rhys Powys (ynghyd â Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd, oedd i'w chlywed, ond heb ei gweld, ar yr organ). Mae'r gwasanaeth yn dal ar gael ar YouTube drwy glicio ar <https://youtu.be/lxLLcaoFB30>.  
(Mae'r cywydd ysgrifennodd Rhys i'w gweld ar ein tudalen olaf)



Yn ddiweddarach yr un bore, gwelwyd Alun yn arwain yr oedfa ar S4C – o Fethlehem, y tro hwn, ond heb gynulleidfa yn yr adeilad. Yn ei law yn y llun ar y dde mae Beibl o'r Hen Gapel, Llanbrynmair, ardal magwraeth Alun.




Bob hyn a hyn mae'r Swyddfa Bost yn danfon llythyrau oddi wrth wahanol gwmnïau ac asiantaethau sydd a chyfeiriad "Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth" arnynt.

'Rwy'n siŵr bod y rhai craffaf ohonoch wedi sylweddoli eisoes nad oes yna flwch llythyrau i'w derbyn yn nrws y capel, ond trwy lwc, oherwydd y traul ar drothwy'r drws, gan genedlaethau o fynychwyr efallai, mae modd i'r postman wthio'r genadwri o dan y drws ac i mewn i ddiogelwch y cyntedd. Nid fod y Trysorydd bob amser yn croesawu'r amlenni yma, yn enwedig os mai bil fydd eu cynnwys!

Ond mae'n siŵr nad ydi Bethlehem yn unigryw yn hyn o beth, o fod heb flwch llythyrau yn ei ddrws ffrynt – a dweud y gwir fedra i ddim meddwl am yr un capel yr ydw i yn gwybod amdano hefo'r fath gyfleuster. Ac ar y perwyl hwnnw a wyddech chi mai rhywbryd ar ôl 1849 y bu i'r arfer o gael bwlch llythyrau yn nrws y tŷ gael ei annog gan y Swyddfa Bost (y "Post Office" bryd hynny) er hwyluso derbyn llythyrau, a hynny yn dilyn diwygiadau i'r gwasanaeth post yn 1840 gyda cyflwyno pris cyffredinol fforddiadwy ar gludiant a'r defnydd o stamp.

Pwy ohonom a fu'n gasglwyr stampiau yn ein hieuentid nad sy'n gyfarwydd â'r "Penny Black" a'r "Penny Red" ynte? Ond os nad oes gan Fethlehem flwch derbyn llythyrau, mae 'na flwch anfon llythyrau yn rhan o'r stâd! Nid ar y tu fewn, ond ar y tu allan – ar y wal sy'n wynebu'r ffordd fawr.



Faint ohonoch sydd wedi sylwi arno tybed? Faint ohonoch sydd wedi ei ddefnyddio i bostio llythyr? Ac hefyd, o sylwi, a ydych wedi sylwi'n fanwl arno?

Adeiladwyd Capel Bethlehem, yn ôl y garreg ar fur y capel, yn 1872. Wn i ddim a ydi'r wal sy'n ffinio â'r ffordd wedi ei hadeiladu yr un pryd, ac wn i ddim a gafodd ei hail-wneud rhywbryd yn y gorffennol? Neu ai dyna ddarn o'r wal wreiddiol cyn i'r capel gael ei adeiladu? Ond mae un peth yn sicr, mae'r Blwch Post sydd yng nghesail y wal yn dyddio yn ôl i oes y Frenhines Victoria (a fu'n teyrnasu rhwng 1837 a 1901) – mae ei VR (Victoria Regina) yn daclus arno uwchben y twll postio yn dyst o hynny.

Mae'r Post Brenhinol, fel yr adnabyddir ef heddiw, yn honni bod na flwch post o ryw fath o fewn hanner milltir i 98% o boblogaeth y Deyrnas Unedig, a bod yna gynifer a 115 500 ohonynt mewn

bodolaeth.

Syndod i mi, wrth baratoi'r pwt o lith yma, oedd deall mai'r nofelydd Anthony Trollope (1815 – 1882), a oedd bryd hynny yn was sifil yn gweithio i'r "General Post Office (GPO)", a fu'n gyfrifol am argymell mabwysiadu blychau post fel manau casglu llythyrau ym Mhrydain, gan ddilyn patrwm a gaed ar y cyfandir o ddarparu pileri haearn bwrw, dan glo, ar fin y ffordd a threfnu casgliadau ohonynt ar amser penodedig. Gosodwyd y cyntaf ohonynt ar Ynysoedd y Sianel yn 1852, a pharhawyd wedi hynny a'r arfer ar dir mawr Prydain o 1853 ymlaen (y cyntaf yng Nghaerliwelydd).

O 1857 ymlaen y daeth yn ffasiynol ymgorffori blychau postio mewn walïau, (mae 160 o wahanol fathau ohonynt yn bodoli yn ôl y "Letter Box Study Group" – oes mae'r fath gorff yn bod, a dyma'r awdurdod ar hanes a datblygiad y bwlch llythyrau min y ffordd ym Mhrydain!).

Coch oedd y dewis liw ar y cychwyn, ond bu cwyno ymysg trigolion eu bod yn anharddu'r ardal, ac fe newidiwyd eu lliw i wyrdd. Ond erbyn 1874 dechreuwyd ar y dasg o'u peintio'n goch unwaith yn rhagor, a hynny oherwydd bod y bobl bellach yn cwyno nad oeddynt yn hawdd eu gweld! A dyna'r drefn hyd heddiw.

O ran rhoi dyddiad mwy pendant i flwch wal y Capel, gellir bod yn weddol saff nad yw'n perthyn i'r degawd cyntaf o'u bodolaeth, oherwydd fe newidiwyd peth ar gynllun gwreiddiol Smith & Hawkes yn ystod y cyfnod hwnnw i ddileu gwendidau, megis glaw yn treiddio i'w grombil, a hwyluso agor y drws i wagio'r cynnwys. Mwy na thebyg mai cynnyrch cwmni W.T Allen, a gomisiynwyd i greu'r blychau postio o 1881 ymlaen, ydyw.

Hwyrach yn wir bod 'na chwilotwyr mwy dygn na mi yn eich mysf fydd yn gwybod yr ateb!

Ond un peth y gallaf fod yn dra sicr ohono ydi, ei fod yn ei dro, wedi bod yn dyst i gerddeddiad pererinion di-rif i fan o addoliad, a bod y tramwyo hwnnw yn parhau hyd heddiw.

Gallwn ramantu a dychmygu bod y Parchedig R G Berry, tra'n byw yn y Mans, wedi bod yn anfon ei ddramâu i'w hargraffu o'r blwch yma yn ystod ei weinidogaeth hir ym Methlehem. Tybed a fu'r Athro Griffith John Williams yn llythyru ag ysgolheigion eraill tra'n paratoi ei gyfrolau ar "Draddodiad Llenyddol Morgannwg" a "Iolo Morgannwg" oddi yma? A thybed a wnaeth Rhodri Morgan anfon cerdyn penblwydd i'w fam-gu oddi yma tra ar ei ffordd i oedfa'r bore, wedi i ddogni petrol ddod i ben ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd?

Cafwyd sawl seiat o fewn ei glyw siŵr o fod – mynegwyd canmoliaeth am bregeth ambell un a siom am bregeth un arall yn ei gysgod, a thybed a rannwyd cyfrinachau ar adeg priodas neu angladd yn y capel?

Tybed a fu ymrafael rhwng y baswyr a'r tenoriaid, yn yr egwyl rhwng cyfarfodydd pwnn a hwyr y Gymanfa Ganu ar ddydd Gwener y Groglith, yn ei wŷdd?

Pwy a wŷr yn wir! Cymerwch gip arno y tro nesaf yr ewch heibio, ond peidiwch â sefyllian yn rhy agos ato, jest rhag ofn!



Bob wythnos yn 'Golwg' mae rhywun yn cael ei g/chyfweld a'r un yw'r cwestiynau bob wythnos. ... "Beth fuasai eich hoff bryd o fwyd.?" ... "Gan bwy cawsoch chi'r 'sws' orau?" ... "Beth achosodd fwyaf o 'embaras' ichi?" Wel, mae gen i gyfaddefiad/embaras! Dau a dweud y gwir, ond mae sôn am un yn ddigon. Mae dwy ran i'r stori:

**RHAN 1:** Mae'r rhan gyntaf yn hanesyn am fy nhad yn yr ysgol fach yn Nantlle. Dau athro oedd yn yr ysgol. Miss Pwâl yng ngofal y "babis" a'r prifathro. Taera'r plant fod y lleud yn "ffeithio" arno achos os byddai fel 'y gwr drwg' byddai'n pigo ar blentyn a'i gyhuddo am wneud rhywbeth ac yna ei gosbi.

Roedd Robin wedi dod â chwip fach i'r ysgol - a ddefnyddid i yrru'r "poni a chert". Bu'r plant yn chwarae ceffylau bach ar yr iard ac yna cadw'r chwip yn y "clôc-rwm". Mae'n amlwg fod Robin wedi cythruddo'r sgwlyn ac aeth i nôl y chwip, a chwipio coesau noeth Robin, hyd nes eu bod yn wrymiau coch i gyd, a'i anfon yn ôl i'w sêl. Pan gyrhaeddodd Robin ei sêl, rhoddodd ei law o dan y ddesg, a chodi'r botel inc oedd yn y twll, sefyll ar ei draed, anelu, a tharo'r gwallgofddyn rhwng ei ddau lygad. Cododd hwnnw ar ei draed, gafael yn ei 'fowler hat' ac allan i'r 'school house.' Daeth Miss Pwâl i dawelu'r dyfroedd. Ymhen hir a hwyr dychwelodd y Prif – plaster ar ei dalcen a dim gair o'i ben!

**RHAN 2:** Marian Ifans, prifathrawes Llantrisant, yn gorfod mynd a grŵp o blant i Sain Ffagan. Yno, ymweld a'r 'ysgol fach'. Ar y wal lluniau – un o Syr O. M. Edwards, os cofiaf yn iawn. Hefyd y 'modulator' a'r 'bwrdd du'. Wrth y drws safai un o ofalwyr Sain Ffagan – fel ymhob adeilad yno. Finau'n egluro gwahanol nodweddion dosbarth oes Victoria i'r plant. Adroddais stori Robin a'i chwip! Wrth ddynesu at y diwedd cydiais yn y botel inc fach o'm blaen, ei chodi i fyny a'i hanelu at ddesg 'wag' y prifathro. Roedd hyn yn ailactio stori fy nhad.

OND... roedd inc yn y pot ac wrth smalio taflu'r botel aeth yr inc dros y waliau, y plant, y 'modiwletor' a gofalwr Sain Ffagan a wisgai grys gwyn! Wyddwn i ddim beth i'w wneud, p'run ai "mopio'r" plant, y waliau neu'r gofalwr! Bob tro y byddwn yn ymweld a'r 'Ysgol' byddai'r inc ar y 'modiwletor' yn f'atgoffa am fy ngor-frwdfrydedd! Ond maen nhw wedi ei newid erbyn hyn ac nid oes raid i ofalwyr Sain Ffagan wisgo crys gwyn chwaith!

## **Atgofion am 'Fynd i'r capel'**

**Arwel Ellis Owen**



Mae mynd i'r capel yn profiad anghyffredin y dyddiau blin hyn gyda Covid19 yn rhwystro un rhag mynychu, ar un llaw, ac yna gorfodi trefn newydd ar yr achlysuron prin y mae'r capel ar agor, ar y llaw arall.

Meddwl wedyn am y profiadau amrywiol y mae rhywun wedi'u cael o fewn muriau'r addoldy. Yr hunllef wythnosol o ddweud adnod sy'n dod gynta i'r cof. Bryd hynny 'roedd 'na hanner cant a mwy o blant yn dweud adnod, gyda'n nhad yn dechrau bob tro y pen arall i'r rhes o'r lle roeddwn i'n sefyll. Erbyn iddo fy nghyrraedd i, roeddwn i wedi llwyr anghofio'r adnod y treuliais i'r rhan fwyaf o nos Sadwrn yn ei dysgu. Embaras! Mab y Gweinidog! Roedd mam yn gynddeiriog gyda nhad – "You show him up every week. Stewth! Why start the opposite end every time?" Domestig arall dros ginio Sul!

Uchafbwynt y flwyddyn capela i mi oedd ymweliad y diweddar Gwilym O Roberts, darlithydd ym Mhrifysgol Bangor ac un fyddai'n teithio mewn car Americanaidd, hir, gyda'r olwyn gyrru ar yr ochr anghywir. Byddai hefyd yn gwisgo siwt olau a thei lliwgar, ac yn cyfeirio at y pen fel 'coconyt'. Eisteddai mam rhwng Wynford a fi, gan ragdybio trwbl ac fe fyddai yn rhoi ei ewinedd miniog i mewn i groen fy nghoes os oedd 'na awgrym o bwl o chwerthin.

Os cofia i'n iawn, trafod nefoedd ac uffern roedd "Gwilym O" pan ddechreuodd pethau fynd o'u lle. Gan nad oedd o'n meddwl bod y gynulleidfa yn deall ei esboniad dyma droi i wynebu y talcen o farmor oedd yn gefn i'r pulpud. Gyda'i ail fys dyma drïo tynnu llinell ar draws y garreg a chael oes o "fflyff" am ei drafferth. Dyma chwythu y "fflyff" a sgwennu "nefoedd" uwch ben y llinell ac "uffern" oddi tani - gan chwythu mwy fyth o "fflyff" gyda phob llythyren. Dwi'n cofio edrych i gyfeiriad Mrs Owen, Tŷ Capel, a'i gweld hi'n trio diflannu mewn embaras o weld y cwmwl o "fflyff" yn hedfan drwy'r set fawr. Mae ôl ewinedd mam ar fy nghoes i hyd heddiw, wedi iddi dwrio i fewn i'r croen mewn ymdrech aflwyddiannus i gadw fy mrawd a finnau rhag chwerthin yn afreolus.

Dro arall dwi'n cofio mynd gyda'n nhad i wasanaeth Diolchgarwch yn Llanefydd. Mynd i gadw cwmni iddo a hithau'n nos dywyll ar y ffordd adre. "Eistedda yn y rhes gefn" meddai fy nhad wrth i ni gyrraedd y capel. Buan iawn y llanwodd y capel bach gyda meibion y ffermydd cyfagos yn gorlenwi y rhesi cefn. Pob un â'i stori gyda'r chwerthin yn cynyddu drwy'r gwasanaeth.

"Arwel, tyrd i eistedd i'r rhes flaen," glywais i o'r pulpud, wrth i'r hwyl fynd dros ben llestri. Tawel iawn oedd pethe yn y car ar y ffordd adre!

Gadael wedyn am y Coleg, a Roberts "Wood", y pen-blaenor ac athro "woodwork" yn yr ysgol, yn cyflwyno papur deg swllt i mi, gan ddweud, "Cadw hwn yn saff, a'i ddefnyddio dim ond pan mae hi yn ben set arnat." Mae'r papur gennyf o hyd!




**Geza Vermes 22 Mehefin 1924 - 8 Mai 2013**

Dyma, medd Y Guardian, am yr awdur yn yr ysgrif hon, "the greatest Jesus scholar of his generation." Ac meddai'r Times, "the world's leading Gospel scholar." Gellir ychwanegu hefyd mai ef oedd un o arbenigwyr mwya'r byd ar Sgroliau'r Môr Marw.

Cafodd ei eni yn Hwngari i deulu o dras Iddewig. Roedd y teulu wedi cefnu ar Iddewiaeth yn y 19eg ganrif. Athrawes oedd ei fam a newyddiadurwr oedd ei dad. Pan oedd Geza'n chwech oed cafodd y teulu eu bedyddio yn yr Eglwys Gatholig Rufeinig, fel ffordd o ddianc

rhag yr wrth-semitiaeth oedd ar gynnydd. Nid bod hynny wedi'u harbed. Bu farw ei rieni yn yr holocost yn 1944. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd cafodd ei ordeinio'n offeiriad yn Yr Eglwys Gatholig. Cafodd ddoethuriaeth yn 1953 am ei waith ar Sgroliau'r Môr Marw. Ganddo cafwyd y cyfieithiad cyntaf o'r Sgroliau yn 1962.

Syrthiodd mewn cariad â Pamela Hobson Curle, bardd ac ysgolhaig. Gadawodd yr offeiriadaeth er mwyn ei phriodi. Gadawodd yr Eglwys hefyd a dychwelyd at ei wreiddiau Iddewig, ond nid oedd yn ymarfer y ffydd. Bu'n athro Hebraeg ym Mhrifysgol Newcastle-upon-tyne am rai blynyddoedd cyn cael swydd yn Rhydychen, lle bu hyd ei ymddeoliad yn 1991.




Roedd yn awdur dros ugain o lyfrau, a'i hunangofiant "Providential Accidents" yn eu plith. Mae dau o'i lyfrau ar fy silffoedd. Yn "Christian Beginnings" mae Vermes yn olrhain ac yn dadansoddi'n fanwl, gyda chymorth y prif ddogfennau sydd wedi goroesi o'r cyfnod cychwynnol yna, y modd y daeth ffydd yn Iesu yn rhywbeth mor ddylanwadol a chwyldroadol. Mae'n amlinellu'r gwahanol ddylanwadau ar Iesu a'r Eglwys Fore hyd at [Gyngor Nicea](#) yn 325 O.C., y cyngor a alwyd gan yr Ymerawdwr Cystennin, lle lluniwyd Credo Nicea, datganiad ffydd ecwmenaidd sy'n cael ei dderbyn gan y prif draddodiadau Cristnogol. Ar ddiwedd y llyfr mae Vermes yn gofyn cwestiwn pryfoclyd: beth fyddai'r Iesu o Nasareth hanesyddol yn ei wneud o Gredo Nicea? Bu rhywbeth nid annhebyg yn fy mlino ers sawl blwyddyn bellach: beth fyddai Iesu o Nasareth yn ei ddweud pe bai'n taro heibio ein heglwysi ar fore Sul i wrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud amdano? A fyddai'n adnabod ei hunan?

Mynd ar ôl y Dyn o Nasareth mae Vermes yn "Searching for the Real Jesus." Casgliad o ysgrifau poblogaidd a gyhoeddwyd yn Y Times a phapurau eraill. Yn y rhagolwg dywed mai ei feddyliau rhyddfrydol yw cynnwys y llyfr, yn rhydd o gyfyngiadau eglwys, synagog â'r hyn sy'n cyfateb i'r sefydliadau hynny yn y byd secwlar. Dwi'n ceisio gwahaniaethau rhwng realiti a myth, meddai. Ffrwyth ymchwil academiaidd yw'r ysgrifau ar Iesu hanes, ei fywyd, ei ddysgeidiaeth, ac ymgais i greu darlun o'r Iddew o Galilea yn rhydd o'r delweddau crefyddol sydd wedi'i llunio gan ddyfalu diwinyddol dilynwyr nad ydynt yn Iddewon, dros ddwy fil o flynyddoedd. Dyma frawddeg neu ddwy ar ddiwedd ei bennod ar Yr Atgyfodiad: "the resurrection of Jesus cannot be compared to events belonging to history. There is however one phenomenon that may lead us out of this maze: the transformation of the apostles... They felt their Master close to them: he rose in their hearts."

[https://en.wikipedia.org/wiki/G%C3%A9za\\_Vermes](https://en.wikipedia.org/wiki/G%C3%A9za_Vermes)

Teyrnged Y Guardian <https://www.theguardian.com/books/2013/may/14/geza-vermes>



**CARDIAU NADOLIG CYMORTH CRISTNOGOL / ANRHEGION MASNACH DEG**



Os hoffech gefnogi Cymorth Cristnogol eto eleni drwy brynu Cardiau Nadolig a Chalendrau Adfent Masnach Deg, mae dewis helaeth i gael o siop Siopa Teg (Fair Do's) sydd wedi ei lleoli yn Nhreganna Caerdydd. Os nad ydych wedi ymweld â'r siop o'r blaen, mae'n werth gwneud yr ymdrech i fynd i Dreganna gan eu bod yn gwerthu anrhegion Masnach Deg hyfryd yn ogystal â bwyd a chardiau Cymraeg a Dwyieithog ar gyfer bob achlysur. Mae'r siop wedi ei lleoli yn Heol Llandaf, Treganna, ac ar agor ar Ddydd Mawrth, Gwener a Sadwrn o 10.00 hyd 5.00 o'r gloch (029 2022 2066) Diolch am eich cefnogaeth ddi-flino i elusennau Cymorth Cristnogol a Masnach Deg.

**Nerys Williams**

*(Dyma'r cywydd ddarllenodd Rhys yn yr oedfa rithiol,  
fore Sul: )*

## Sul y Cofio, Caerdydd

Un lleng o fechgyn llynges  
Yn gosod rhosod mewn rhes.  
Sŵn trist, fel sŵn cist yn cau,  
Yw adlais clec eu sodlau.

Pader sych, trwmpedwr sâl,  
Emyn yn cael ei fwmial.  
Hen feini gwlyb; dafnau glaw  
Yn wylo gyda'r alaw.

Ger y glwyd, yn llwyd fel llwch,  
Un teulu mewn tawelwch.  
Galar mud yw galar mam,  
A hen filwr, gŵr gwargam,  
Grwydra 'mhell i gell ei gof  
A'r angau'n herio'i angof.

Mewn ffos, gweld petal rhosyn  
Yno'n waed cyn crino'n wyn.  
Mae pawb, yma â'u pabi,  
Yn hynod falch. Pawb ond fi.

*Rhys Powys.*

## Clodfori

*[Aralleiriad o "Praise" gan R S Thomas o'r gyfrol  
"Laboratories of the Spirit" (1975)]*

'Rwyn dy glodfori oherwydd dy fod,  
ar yr un pryd, yn arlunydd a gwyddonydd.  
Pan fyddaf braidd yn ofnus o'th bwerau,  
dy allu i wneud gwyrthiau gyda sgwaryn,  
fe'th glywaf yn murmur  
wrthyt dy hunan mewn nodiant  
y breuddwydiodd Beethoven amdanynt  
ond na'u meistrolodd  
Fe chwareui donau  
o ddafnau glaw a dŵr y môr,  
a chreu cordiau  
o olau'r wawr a'r cyfnos,  
a cherflunio'r cysgodion.  
Fe gysyllti ddail, un am un,  
yn benillion cerdd o sylwedd  
pan ddaw'r gwanwyn.  
'Rwyt yn siarad pob iaith a dim un,  
gan ateb ein gweddiau mwyaf dyrys  
gyda symylrwydd y blodeuyn,  
ac yn ein herio,  
pan fynnwn dy ddofi  
er ein pwrpas ein hunain,  
Gyda'r feirws cythryblus  
sydd dan ein chwydd-wydr.

*Rhodri-Gwynn Jones*

*(Cerdd am y wefr o fod yn ofalwr yn yr Amgueddfa  
Werin – profiad go iawn i'r bardd)*

## Llun y Pasg yn yr Amgueddfa Werin

Mae clwydi'r fynedfa wedi agor  
a bant â nhw.

Dim ond unwaith maen nhw'n gweld  
y dyn â chap â phig  
tra byddi di'n gweld pum mil ohonyn nhw.

Bratha crwt dy fyfyrdod dwys:  
'Beth yw hwnna?'  
Faint o weithiau fyddi di'n ateb 'Gwely cwprdd'  
erbyn chwech heno?  
Angen cymal arall ar y disgrifiad swydd:  
'y gallu i fod fel parot'.

I mewn â nhw i Kennixton,  
plant ysgol o Ffrainc  
yn bacsan lan y sta'r fel llygod ffyrnig.  
Dim sôn am athro,  
yn cwato, siŵr o fod, yn y tŷ bach.

Americanwr mewn het Stetson  
yn plygu'n isel  
wrth ddod mewn trwy'r drws cefen.  
'Beth am ddodi jiwbcocs yn y gornel?'  
Hwn o ddiFri.

Cyrhaedda dyn tawel o Japan  
â chamera eger.

Ro'dd y swydd hon i fod  
yn garreg gamu  
ond yr afon  
mor llydan â'r Mississippi.

Diddiwedd yw llif yr ymwelwyr.  
Gallai rhywun gael ei dynnu lawr.

*Martin Huws*

Oes ganddoch chi hoff gerdd Nadoligaidd? Beth am roi gwybod i ni, ac efallai dweud gair neu ddau amdani? Dyma i chi un o ffefrynnau'r Golygydd – englyn sy'n cael ei phriodoli i Dîm Talwrn Penrhosgarnedd, ond yn wir yn waith y *Parchedig John Gwilym Jones*.

### Nadolig erstmalwm

Yr un dydd a fu'n hir yn dod – y llofft  
Yn llwyth o ddarganfod,  
Unnos undydd o syndod,  
Y tŷ'n bert, a Santa'n bod.